



Dinas a Sir Abertawe

Cofnodion Yr Is-bwyllgor Trwyddedu Statudol

Cyfarfod Aml-leolaidd - Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas /
MS Teams

Dydd Gwener, 23 Mehefin 2023 am 10.00am

Yn bresennol: Y Cyngorydd P M Matthews (Cadeirydd) fu'n llywyddu

Y Cynghorwyr
P Downing

Y Cynghorwyr
B J Rowlands

Swyddogion

Annie Davies
Craig Davies
Rachel Loosemore
Samantha Woon

Swyddog Trwyddedu
Cyfreithiwr Cyswllt
Arweinydd Gweithredol, Trwyddedu
Swyddog y Gwasanaethau Democraidaidd

Hefyd yn bresennol

Mr D Rees, Trysorydd Clwb Rygbi Dyfnant (ar ran yr Ymgeisydd)
Y Cyngorydd J W Jones (Aelod Ward)
Y Cyngorydd M H Jones (Aelod Ward)
Ms D Matthews (Preswlydd Lleol)
Mr K Munson (Preswlydd Lleol)
Mr N Alexander (Preswlydd Lleol)
Ms S Thomas (Preswlydd Lleol)

Ymddiheuriadau am absenoldeb: Dim.

1 Datgeliadau o fuddiannau personol a niweidiol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

2 Gweithdrefn Is-bwyllgor Trwyddedu Statudol (er gwybodaeth)

Cyflwynodd y cyfreithiwr a oedd yn cynghori'r Pwyllgor y Weithdrefn Is-bwyllgor Trwyddedu Statudol, er gwybodaeth.

3 Deddf Trwyddedu 2003 - Adran 17 - Cais am Drwydded Mangre - Clwb Rygbi Dyfnant, Broadacre, Cilâ, Abertawe SA2 7RU.

Amlinellodd y Cyfreithiwr Cyswllt y weithdrefn i'w mabwysiadu gan yr Is-bwyllgor wrth ystyried y cais.

Adroddodd y Swyddog Trwyddedu ar y cais am drwydded mangre newydd mewn perthynas â Chlwb Rygbi Dyfnant, Broadacre, Cilâ, Abertawe SA2 7RU a dderbyniwyd gan yr Awdurdod ar 3 Mai 2023.

Cyfeiriodd at yr amcanion trwyddedu, ystyriaethau polisi, arweiniad gan y Swyddfa Gartref a champau gweithredu'n dilyn ystyried gwrthwynebiadau'r bobl berthnasol. Cyfeiriwyd yn benodol at gais am drwydded mangre yn Atodiad A ac A1, copi o Dystysgrif Mangre'r Clwb yn Atodiad B a B1, cynllun lleoliad y safle yn Atodiad B2, rhestr o fangreoedd trwyddedig yn yr ardal yn Atodiad 3, amodau sy'n gyson â'r atodlen weithredu yn Atodiad C a'r sylwadau a wnaed gan Bobl Eraill yn Atodiad D a chopi o sylwadau o blaid y cais yn Atodiad D1.

Derbyniwyd 12 sylw gan bobl eraill. Atodwyd copi o'u sylwadau yn Atodiad D. Roedd y sylwadau'n ymwneud ag atal troseddu ac anhrefn a niwsans cyhoeddus.

Ymhelaethodd y Cynghorydd J W Jones (Aelod Ward) ar ei sylwadau ysgrifenedig mewn perthynas â niwsans cyhoeddus. Cyfeiriodd at gwynion dros y blynyddoedd ac anawsterau traffig yn Broadacre o ganlyniad i barcio yn y ffordd bengaead yn hytrach na'r Clwb Rygbi.

Ymhelaethodd y Cynghorydd M H Jones (Aelod Ward) ar ei sylwadau ysgrifenedig mewn perthynas â niwsans cyhoeddus. Amlinellodd fod y cais yn ceisio'r un oriau ag oedd ganddynt yn flaenorol o dan Drwydded Clwb. Cyfeiriodd at niwsans cyhoeddus mewn perthynas â phreswylwyr Broadacre a oedd wedi bod yn mynd rhagddo ers blynyddoedd lawer.

Manylodd swyddogion ar y gwahaniaeth rhwng Trwydded Clwb ac Eiddo. Byddai'r Drwydded Mangre yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i'r graddau na fyddai angen i gwsmeriaid fod yn aelodau o'r clwb nac yn hysbys i aelodau'r clwb.

Gofynnodd Mr K Munson (Preswilydd Lleol) am gyfle i siarad. Dywedodd yr Arweinydd Gweithredol - Trwyddedu nad oedd Mr Manson wedi nodi ei ddymuniad i siarad yn unol â deddfwriaeth drwyddedu. Ar gyngor y Cyfreithiwr Cyswllt, caniatodd y Cadeirydd i Mr Manson wneud sylwadau llafar.

Cyfeiriodd Mr K Munson at natur breswyl yr ardal a'r anawsterau a brofir gan breswylwyr ar ddiwrnodau gemau. Dywedodd y gallai'r drwydded mangre annog y Clwb i geisio mwy o gwsmeriaid yn ystod y flwyddyn, gan newid y lleoliad yn glwb nos yn y pen draw. Cyfeiriodd at ddifrod i fan cymydog, digwyddiad gyda bar awyr agored yn masnachu yn ystod y cyfnod clo a gangiau o bobl yn aros am dacsis yn Broadacre.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd mewn perthynas â thorri rheolau yn ystod y cyfnod clo, dywedodd yr Arweinydd Gweithredol, Trwyddedu, nad oedd hi'n gallu cadarnhau bod unrhyw gwynion wedi dod i law yn ystod y cyfnod clo heb wirio cofnodion.

Dywedodd y Cyfreithiwr Cyswllt fod dadreoleiddio wedi digwydd yn ystod y cyfnod clo gyda llawer o safleoedd yn gallu darparu gwerthiannau yn ystod y cyfnod clo a hynny'n gyfreithiol.

Ymhelaethodd Ms D Matthews (Preswlydd Lleol) ar ei sylwadau ysgrifenedig ynghylch niwsans sŵn, gangiau'n ymgasglu a'r potensial i'r lleoliad ddod yn glwb nos.

Ymhelaethodd Mr N Alexander (Preswlydd Lleol) ar ei sylwadau ysgrifenedig ynghylch natur breswyl yr ardal a'r niwsans sŵn parhaus. Cyfeiriodd at recordiad fideo a ddisbarthwyd yn flaenorol i'r Aelodau lle'r oedd grŵp o bobl yn swnllyd wrth adael yr ardal.

Ymhelaethodd Ms S Thomas (Preswlydd Lleol) ar ei sylwadau ysgrifenedig ynghylch niwsans sŵn (yn benodol sŵn yn teithio i fyny'r cwm), sbwriel (caniau ar ben y lôn) a diffyg ymgynghori â phreswylwyr ynghylch y cais.

Croesawodd y Cadeirydd Mr D Rees (sy'n cynrychioli'r Ymgeisydd) a ddywedodd fod trwydded bresennol y Clwb yn caniatáu i'r safle aros ar agor tan 0145 awr. Dywedodd fod y cais wedi'i gyflwyno ar gyngor Swyddogion Trwyddedu ac roedd y clwb mewn gwirionedd wedi lleihau ei oriau gweithredu, gan gau am 2200 y rhan fwyaf o nosweithiau. Dywedodd y gallai sŵn sy'n teithio i fyny'r cwm hefyd fod o fangreoeedd trwyddedig eraill. Cyfeiriodd at bedwar digwyddiad mawr blynyddol y clwb a oedd yn cynhyrchu incwm i gadw'r fangre'n hyfyw. Rhoddodd fanylion am y costau cynnal sy'n gysylltiedig â'r clwb a'r ddibyniaeth ar werthu alcohol i gynhyrchu incwm. Rhoddodd fanylion am gyfyngiadau trwydded gyfredol y clwb a'r rhesymeg dros wneud cais am Drwydded Mangre.

Dywedodd nad oedd y safle'n gwerthu caniau, felly byddai unrhyw sbwriel y cyfeirir ato gan y preswylwyr lleol wedi cael ei brynu mewn man arall. Cyfeiriodd at y digwyddiad lle achoswyd difrod i fan a manylodd ar sut roedd y clwb wedi adolygu CCTV ac wedi cynnwys yr Heddlu, gyda'r tramgwyddwr yn cael ei adnabod a'r difrod yn cael ei gywiro.

Nodwyd bod cwsmeriaid yn mynychu'r clwb ar gyfer digwyddiadau penodol, yn absenoldeb digwyddiadau o'r fath mae'r clwb yn dawel, gan gau cyn 2200 am oddeutu 340 niwrnod o'r flwyddyn.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau, nododd Mr Rees:

- Mae'r clwb fel arfer yn cau am 1600 awr ar ddydd Sul (heblaw am Wyliau Banc). Dywedodd na allai weld unrhyw broblem gydag addasu'r oriau gweithredu ar ddydd Sul, fodd bynnag, byddai angen i Aelodau Pwyllgor y Clwb Rygbi gytuno i hynny.
- Cytunodd i addasu'r amser y symudir sbwriel a photeli i rhwng 0900 a 2000 awr.

- Nid oedd y Clwb yn cynnig y safle ar gyfer partïon Pen-blwydd yn 18 oed ac nid oedd yn bwriadu ymestyn defnydd i'r rheini nad oeddent yn aelodau. Yn gyffredinol, nid yw'r Clwb yn denu cwsmeriaid o safleoedd eraill sy'n gorffen eu noson yn y lleoliadau trwyddedig eraill yn Nyfnant a Chilâ.
- Mae'r Clwb yn aml yn gofyn i gwsmeriaid symud eu ceir ar gais preswylwyr lleol ac maent yn hapus i helpu bob amser.
- Mae'r mater o werthu nwyddau i'w cymryd oddi ar y safle'n gamarweiniol gan fod nifer o leoliadau yn Nyfnant a Chilâ ar gael ar gyfer pryniannau i'w cymryd oddi ar y safle. Roedd yn annhebygol y byddai cwsmeriaid yn teithio i'r Clwb i brynu nwyddau i'w cymryd oddi ar y safle.
- Roedd y Clwb yn cydymffurfio'n llawn ynghylch hysbysebu sy'n gysylltiedig â'r cais.
- Dim ond diodydd poeth oedd ar gael yn hwyr y nos.

Atgoffodd y Cyfreithiwr Cyswllt bawb a oedd yn bresennol nad oedd materion sy'n gysylltiedig â pharcio o fewn cylch gwaith Deddf Trwyddedu 2003. Ar ben hynny, cadarnhaodd fod yr Ymgeisydd wedi hysbysebu'n gywir ac yn gyfreithlon.

I gloi, dywedodd Mr Rees mai pwrpas y cais oedd adlewyrchu'r drwydded bresennol er mwyn rheoli'r digwyddiadau blynyddol mwy yn well. Manylodd ar y manteision i'r gymuned a gynigir gan y Clwb a'r gwirfoddolwyr a'r parodwydd parhaus i weithio gyda phreswylwyr lleol i leddfu unrhyw broblemau.

Penderfynwyd eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r gwrandawriad yn unol â pharagraff 14 o Reoliadau Deddf Trwyddedu (Gwrandawriadau) 2005, fel y gall yr Is-bwyllgor gael cyngor cyfreithiol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r cyfranogwyr am eu presenoldeb, a chynghorodd y byddai penderfyniad yn cael ei ddarparu o fewn 5 niwrnod gwaith.

(Sesiwn Gaeëdig)

Trafododd yr aelodau'r materion yn ymwneud â'r cais.

(Sesiwn Agored)

Nododd y Cadeirydd y byddai penderfyniad yr Is-Bwyllgor yn cael ei gyhoeddi o fewn pum niwrnod gwaith i gyfarfod y Pwyllgor ac y byddai'n ystyried y cais a'r sylwadau a wnaethpwyd ac anghenion a buddiannau pob parti o ran Datganiadau Polisi Trwyddedu'r cyngor, yr arweiniad statudol a gofynion Deddf Trwyddedu 2003.

Penderfynodd yr Is-bwyllgor i **ganiatáu'r** cais yn amodol ar amodau sy'n gyson â'r amserlen weithredu ac fel y'u haddaswyd i'w hystyried yn briodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu isod:

perfformio cerddoriaeth fyw
Chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio
Perfformio Dawns

Pob gweithgaredd

Nos Sul - nos Iau 2300 awr i 0000 awr
Nos Wener - nos Sadwrn 2300 awr i 0100 awr

Lluniaeth yn Hwyr y Nos
Nos Sul - nos Iau 2300 awr i 0000 awr
Nos Wener - nos Sadwrn 2300 awr i 0130 awr

Cyflenwi alcohol

Dydd Sul – dydd Iau 0800 awr i 2330 awr
Dydd Gwener – dydd Sadwrn 0800 awr i 0100 awr

1. Dim plant dan 18 oed heb oruchwyliaeth ar ôl 9pm.
2. Bydd system CCTV gynhwysfawr y gellir recordio arni yn cael ei gosod a'i chynnal a chadw yn yr holl ardaloedd masnach, sy'n cynnwys golwg ar bob mynedfa ac allanfa i'r fangre. Rhaid i'r system teledu cylch cyfyng recordio'n barhaus pan fydd y fangre ar agor ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy ac ar bob adeg pan fydd cwsmeriaid yn y fangre. Rhaid i'r system allu darparu lluniau o safon dystiolaeth, yn enwedig cydnabyddiaeth wyneb. Mae'n rhaid i bob recordiad gael ei storio am o leiaf 31 diwrnod gyda dyddiad ac amser. Bydd y recordiadau ar gael yn syth ar gais yr Heddlu neu swyddog Awdurdodedig.
3. Bydd llyfr cofnodi achosion, yn nhrefn rifiadol, yn cael ei gadw yn y fangre sy'n dangos manylion dyddiad ac amser pob ymosodiad, niwed, damwain neu ddigwyddiad o droi allan, yn ogystal â manylion aelodau'r staff fu'n ymwneud â hyn, natur y digwyddiad a'r cam gweithredu/canlyniad. Rhaid bod y llyfr ar gael i'w archwilio gan yr heddlu a swyddogion awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu.
4. Bydd hysbysiadau'n cael eu harddangos yn amlwg ger pob allanfa yn gofyn i gwsmeriaid barchu anghenion y preswylwyr lleol a gadael yr ardal yn dawel.
5. Gosodir hysbysiadau yn yr holl fannau allanol a ddefnyddir yn gofyn i gwsmeriaid barchu anghenion preswylwyr lleol ac i ddefnyddio'r ardal yn dawel.
6. Ni cheir symud, gwaredu na gosod gwastraff, gan gynnwys poteli, yn yr ardaloedd awyr agored rhwng 2100 ac 0800.
7. Gweithredir cynllun prawf oedran Her 25 yn y fangre a'r unig ffurfiau adnabod derbyniol fydd llun, dyddiad geni a marc holograffig.
8. Cedwir cofnod yn rhoi manylion pob achos o wrthod gwerthu alcohol. Dylai'r cofnod gynnwys dyddiad ac amser gwrthod y gwerthu ac enw'r aelod o staff a wrthododd ei werthu. Dylai'r cofnod fod ar gael i'w archwilio yn y fangre gan yr Heddlu neu swyddog awdurdodedig y cyngor ar bob achlysur pan fydd y fangre ar agor.

9. Rhaid i'r fangre gadw cofnodion diweddar o hyfforddiant staff a hyfforddiant gloywi o ran gwerthu yn ymwneud ag oedran, gan gynnwys gwerthu drwy ddirprwy, gwerthu i bobl feddw ac adnabod ac atal camddefnyddio cyffuriau, ar ffurf ysgrifenedig neu electronig, sydd ar gael i'w harchwilio gan swyddog awdurdodedig.
10. Heblaw am rai a werthwyd i'w cymryd oddi ar y safle mewn cynwysyddion a seliwyd, ni chaniateir cymryd unrhyw ddiodydd o'r ardal drwyddedig sydd wedi'i nodi ar y cynlluniau adnau.
11. Dylai'r hysbysiaidau gael eu harddangos yn glir yn y fangre er mwyn pwysleisio i gwsmeriaid nad yw alcohol yn cael ei werthu i bobl dan 18 oed.
12. 30 munud o amser yfed ar ben y gwerthiant alcohol olaf a ganiateir i ganiatáu i gwsmeriaid orffen.
13. Bydd y Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch yn cael ei hysbysu gydag o leiaf deufis o rybudd ar gyfer pob digwyddiad sy'n debygol o ddenu mwy na 500 o bobl.

Rheswm dros y Penderfyniad:

Nododd y Pwyllgor na dderbyniwyd unrhyw sylwadau perthnasol gan yr Awdurdodau Cyfrifol.

Nododd y Pwyllgor holl sylwadau'r preswylwyr lleol yn y bwndel o ddogfennau, eu sylwadau yr ymhelaethwyd arnynt yn ystod y Pwyllgor a'r fideo a ddarparwyd. Nodwyd bod y sylwadau hefyd yn cyfeirio at faterion parcio a defnyddio'r briffordd, y gellid eu hystyried nad ydynt yn uniongyrchol berthnasol i'r amcanion, felly cymerodd yr aelodau ofal ychwanegol wrth ystyried yr holl sylwadau yn unol â'r amcanion.

Nododd y pwyllgor sylwadau'r ymgeisydd a gwybodaeth ategol yr ymgeisydd a ddarparwyd cyn y pwyllgor.

Nododd y pwyllgor fod yr ymgeisydd yn cydnabod sylwadau a phryderon preswylwyr lleol drwy ddarparu atebion sy'n gwrthateb a/neu'n lliniaru sy'n berthnasol i'r amcanion trwyddedu.

Cadarnhaodd yr ymgeisydd hefyd ei barodrwydd i barhau i weithio gyda phreswylwyr i helpu i ddatrys materion lleol sy'n deillio o'r safle.

Roedd yr ymgeisydd yn agored i'r oriau agor presennol ac er nad oedd ganddo'r awdurdod i gytuno ar addasiadau i'r cais, roedd yn croesawu addasiadau gan yr aelodau os teimlant y byddai addasiadau o'r fath yn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

Felly, roedd y pwyllgor yn teimlo, gyda'r lliniaru a gynigiwyd a chan addasu'r holl weithgareddau a chyflenwad alcohol ar ddydd Sul yn unol ag amserau dydd Llun i ddydd Iau, roedd addasu .6 a .13 o'r amodau yn ddigonol ac yn ddigon arwyddocaol

Cofnodion cyfarfod y Is-bwyllgor trwyddedu statudol (Dydd Gwener, 23 Mehefin 2023)
Parhad

i ddyrchafu sylwadau'r preswylwyr lleol ynghylch yr effaith y byddai rhoi trwydded yn ei chael ar yr amcanion trwyddedu.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.53am

Cadeirydd